# Cwis mawndiroedd

## Datganiadau ac atebion

| Rownd | Datganiad | Ateb | Ffaith |
|---|---|---|---|
| 1 | Mawndiroedd yw storfa garbon naturiol fwyaf y byd. | Gwir! | Mae mawndiroedd yn ymestyn dros lai na 3% o arwyneb y Ddaear, ond credir eu bod yn cynnwys dwywaith cymaint o garbon â choedwigoedd y byd. Oherwydd hyn, maent yn hollbwysig o ran amddiffyn rhag effeithiau newid hinsawdd. |
| 2 | Mae mawn wedi'i wneud o gymysgedd o dywod a chlai. | Gau! | Mae mawn wedi'i wneud o ddeunydd planhigion sydd wedi pydru'n rhannol, migwyn (*sphagnum*) yn bennaf, ac mae'n ffurfio mewn amodau dwrlawn. |
| 3 | Mae rhai rhywogaethau o figwyn yn gallu storio 16-26 gwaith eu pwysau sych mewn dŵr. | Gwir! | Carpedi amryliw trwchus wedi'u gwneud o liaws o blanhigion migwyn unigol yw sylfaen mawndiroedd, gyda'r dŵr yn cael ei storio yn eu strwythurau sbyngaidd. |
| 4 | Mae mawndiroedd yn cynnig lleoedd i anifeiliaid bori. | Gwir! | Os cânt eu rheoli'n ofalus, gellir gweld gwartheg, defaid a cheffylau'n pori ar fawndiroedd. Hefyd, gellir torri'r brwyn sy'n tyfu ar fawndiroedd ar gyfer creu deunydd gorwedd i dda byw. |
| 5 | Mae mawndiroedd yn darparu bwyd i bobl. | Gwir! | Mae modd dod o hyd i fwyar duon, eirin gwyllt, eirin ysgaw, llus a llugaeron yn tyfu'n wyllt ar fawndiroedd. |
| 6 | Mae gan bridd mawn gynnwys lleithder o lai na 50%. | Gau! | Mae mawn mewn gwlyptiroedd yn debygol o fod â chynnwys lleithder o fwy na 95%, os yw heb ei droi. Credir bod mwy o bethau solet mewn llaeth nag mewn mawn! |
| 7 | Mae mawndiroedd a niweidiwyd yn cyfrannu'n fawr at allyriadau nwyon tŷ gwydr. | Gwir! | Bob blwyddyn, mae mawndiroedd yn rhyddhau bron i 6% o allyriadau $CO_2$ y byd. Felly, gall adfer mawndiroedd arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau a'n helpu i daclo newid hinsawdd. |

| Rownd | Datganiad | Ateb | Ffaith |
|---|---|---|---|
| **8** | Gall mawndiroedd helpu i atal perygl llifogydd. | Gwir! | Mae arwyneb mawndiroedd yn arbennig o arw. At hynny, i raddau maen nhw'n gweithredu fel sbwng. Mae'r ddau beth hwn yn helpu i liniaru llifogydd a sychder drwy arafu llif dŵr drwy'r dirwedd mewn cyfnodau o law trwm. Mewn cyfnodau o ddiffyg glaw, maen nhw'n helpu i gadw ac ymestyn llif y dŵr. |
| **9** | Mae mawn sydd â dyfnder o 10 metr yn cymryd mil o flynyddoedd i ffurfio. | Gau! | Mae mawn sydd â dyfnder o 10 metr yn cymryd 10,000 o flynyddoedd i ffurfio. Mae priddoedd mawn yn cronni oddeutu 1mm bob blwyddyn, felly gall gymryd hyd at 1,000 o flynyddoedd i 1 metr o fawn ffurfio! |
| **10** | Mae priodweddau gwrthfacteriol gan figwyn. | Gwir! | Mae pobl wedi gwneud defnydd o briodweddau gwrthfacteriol migwyn, ynghyd â'i allu i amsugno hylifau, ers canrifoedd. Am ei briodweddau amsugnol a gwrthfacteriol fe'i defnyddiwyd yn effeithiol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd i drin clwyfau, drwy sterileiddio ac atal madredd. |

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



NATURA 2000
Life
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government